# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-09-11**

## CA580 : Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 107(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn darparu y daw Bil, a gaiff ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), yn Ddeddf pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 115(4) o Ddeddf 2006 yn darparu bod Bil o'r fath yn cael y Cydsyniad Brenhinol pan hysbysir Clerc y Cynulliad fod Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi eu llofnodi gan Ei Mawrhydi â'i llaw Ei Hunan i ddynodi Ei Chydsyniad. Mae adran 116(1) o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer bodolaeth Sêl Gymreig. Mae adran 116(3) o Ddeddf 2006 yn darparu y caiff Ei Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wneud darpariaeth ynglyn â ffurf a dull o lunio a chyhoeddi'r cyfryw Freinlythyrau. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi'r ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio mewn Breinlythyrau i ddynodi Cydsyniad Brenhinol i Filiau sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd ynglyn â llunio a chyhoeddi'r Breinlythyrau.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhagoriaethau: craffu

Nodir y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn:

Mae'r Pwyllgor yn nodi, ac yn cymeradwyo'r ffaith, bod y Gorchymyn hwn, ar yr achlysur hon, wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cael ei wneud gan y Cyfrin Gyngor.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Mawrth 2011**